# CRYNODEB CYFARFOD

## Cyngor Cymuned Llanycil
## Cyfarfod Nos Fawrth, Mehefin 11eg 2024 am 8.00 o'r gloch yn Neuadd Maesywaen.

Presennol: Huw Charles (cadeirydd), Gwynfryn Williams, Geraint Jones, Catrin Charles a'r clerc.
Ymddiheuriadau: Rhys Richards a'r Cyng. Elwyn Edwards

i) Darllen a chadarnhau'r Cofnodion (Mai 7fed 2024) - **Cymeradwywyd.**

ii) Datgan Buddiant –**Dim.**

iii) Materion yn codi o'r Cofnodion.
a) Ymateb i'r cwynion o'r cyfarfod diwethaf.
b) Ymweliad i safle gwaith Llyn Celyn – **cafwyd adroddiad gan y cynghorwyr o hyn a welwyd yn y diwrnod agored.**

## iv) Gohebiaeth

a) Cyngor Gwynedd.
i) Rhybudd cau'r ffordd, Llidiardau 15/07/24 a Parc

b) Llywodraeth Cymru.
i) Adran Trafnidiaeth a Gogledd Cymru – adolygu'r terfyn cyflymder 20 m.y.a. **Cytunwyd i nodi cais blaenorol y Cyngor i newid y cyfyngiad cyflymder yn nôl i 30 m.y.a. rhwng yr orsaf heddlu a Llyn Tegid.**

## v) Ceisiadau Cynllunio.

**Nid oedd unrhyw gais i'w drafod.**

**vi) Materion Ariannol**
a) Derbyniadau - Praesept £2,250
b) Archwiliad Mewnol a'r Ffurflen Flynyddol - **roedd Cyngor Gwynedd wedi archwilio'r cyfrifon a chafwyd cadarnhad i sicrwydd yn nhrefniadau llywodraethu a datganiadau cyfrifyddu'r cyngor ond bod rhai elfennau y gellir eu tynhau i liniaru risgiau a adnabuwyd. Argymhellir bod y Cyngor yn ymrwymo i roi sylw i un risg, sef diffyg gwahanu dyletswyddau wrth greu a phrosesu taliadau ar lein a chynghorwyd i gymryd camau priodol i'w lliniaru. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd i ychwanegu Huw Charles i'r cyfrif banc arlein fel ei fod yn gallu awdurdodi taliadau mae'r clerc yn ei wneud. Cytunwyd yn unol â gofynion y datganiadau Cyfrifyddu a Llywodraethu yn y ffurflen Archwiliad Blynyddol. Adroddodd y Clerc y byddai'n anfon yr holl ddogfennau roedd Swyddfa Archwilio Cymru eu hangen ar gyfer yr archwiliad llawn allannol yn ddiweddarach yn y mis. Cytunwyd i arddangos yr hysbysiad archwilio yn y mannau perthnasol.**

**vii) Materion lleol.**
**a) Cytunwyd i anfon y cwynion i'r adrannau perthnasol.**

**CYTUNWYD I GYNNAL Y CYFARFOD NESAF AR NOS FAWRTH GORFFENNAF 9fed YN NEUADD MAESYWAEN.**